# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Meeting date: | **Dydd Llun, 7 Ionawr 2013** |
| Meeting time: | **14:00 - 15:25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Minutes:

Committee Members:

**Rosemary Butler (Cadeirydd)**
**Jocelyn Davies**
**William Graham**
**Jane Hutt**
**Aled Roberts**

Committee Staff:

**Anna Daniel (Clerc)**

Others in attendance:

**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**
**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**
**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**
**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**
**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**

## 1. Amserlen y Pwyllgorau

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod amserlen y pwyllgorau, yn arbennig yr angen i neilltuo mwy o amser i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyfarfod.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ailedrych ar y mater ar ôl ymgynghori ymhellach gyda'u grwpiau ar yr opsiynau a drafodwyd.

## 2. Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried opsiynau ar gyfer newid system Cwestiynau Llafar y Cynulliad, gyda'r nod o'i wneud yn ddull mwy effeithiol o graffu ar y Llywodraeth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor y dylai'r terfyn ar gyfer cyflwyno cwestiynau gael ei leihau i 5 diwrnod gwaith ar gyfer cwestiynau i Weinidogion a 3 diwrnod ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog, i ddechrau ar ôl toriad mis Chwefror. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai hyn yn cael ei gydbwyso drwy dynhau'r dull a ddefnyddir ar gyfer cwestiynau agored.

Nododd y Rheolwyr Busnes y dylai hyn alluogi cyflwyno mwy o gwestiynau amserol, ond cytunwyd y byddent yn parhau i adolygu'r drefn yn rheolaidd.

## 3. Cynnig ar gyfer ymweliad â Senedd yr Alban

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu at Lywydd Senedd yr Alban i geisio ymweliad â Senedd yr Alban cyn toriad y Pasg i gymharu arferion a gweithdrefnau, yn enwedig sut y caiff busnes y Siambr ei reoli, sesiynau cwestiynau llafar a gweithdrefnau ar gyfer craffu ar Filiau'r DU a rhoi cydsyniad deddfwriaethol iddynt.